**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Minister for Culture, Tourism and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - P/DET/4226/18

Bethan Sayed AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Tachwedd 2018

Annwyl Bethan

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20**

Ysgrifennaf i ymateb i'r pwyntiau gweithredu a gofnodwyd gan y Clerc, a gododd o sesiwn graffu'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar y Gyllideb Ddrafft a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2018:

1. **Trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethu ar gyfer Cyllideb y Cyfryngau, ac ymdrechion Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cynllun a gadael i ymgeiswyr wybod bod y gronfa ar agor i geisiadau**

Cafwyd trafodaeth faith ar ddechrau'r sesiwn am gyllid ar gyfer cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu yng Nghymru, lle'r oedd fy swyddogion a minnau'n ceisio ymateb i ansicrwydd y Pwyllgor am y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd. Dywedais yn glir ein bod ni'n agored i fusnes fel arfer, a bod gennym lwybrau cyllido cynhyrchu ar gael o dan Gronfa Dyfodol yr Economi ac yn defnyddio'r rhain yn llwyddiannus i ddod â chynyrchiadau mawr i Gymru. Dywedais fod y mecanwaith penodol ar gyfer y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau wedi'i hoedi ar hyn o bryd, ond rydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r sector yng Nghymru ac yn defnyddio'r holl lwybrau cyllido i wneud hynny.

Bydd cynigion ar gyfer defnyddio gweddill y cyllid a ddyrannwyd i'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau'n cael eu cyflwyno maes o law i mi ac Ysgrifennydd y Cabinet eu hystyried.

2. **Yn ystod y cyfarfod trafodwyd y cyllid sydd ar gael i berchnogion eiddo rhestredig. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru am ddatgan yn glir bod cyfleoedd cyd-fuddsoddi ar gael i berchnogion. Dywedwyd hefyd y byddai perchnogion â chynigion cyllido arloesol yn cael derbyniad ffafriol. Allwch chi gadarnhau bod perchnogion eiddo rhestredig wedi cael gwybod am hyn?**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae grantiau Cadw ar gyfer cynlluniau trwsio adeiladau hanesyddol yn canolbwyntio ar helpu i achub adeiladau rhestredig sydd mewn perygl a/neu sbarduno cyfleoedd adfywio a sicrhau manteision i gymunedau Cymru. Un o'r ffyrdd o ddarparu'r manteision hyn yw datblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd. Mae unrhyw fuddsoddiad yn seiliedig ar ddull partneriaeth, gyda Cadw yn ariannu hyd at 50% o waith sy'n gymwys am grant. Rydym yn chwilio am gymeradwyaeth i'n ffynonellau cyllid eraill drwy'n proses ymgeisio ac yn annog atebion arloesol a chydweithio. Mae ein meini prawf a'n gofynion wedi'u nodi ar ein gwefan a byddwn yn diweddaru hyn i gynnwys gwybodaeth am y cylch cyllid nesaf yn fuan.

**3. Allwch chi roi gwybod i ni sut y bydd y £100,000 ar gyfer grantiau sefydlu i newyddiadurwyr sydd am ddechrau eu busnesau eu hunain yn y sector hyperleol yn cael ei ddyrannu a phwy sy'n gyfrifol am y gyllideb?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu £100,000 yn 2018-19 a £100,000 yn 2019-20 i gefnogi newyddiadurwyr sy'n ceisio sefydlu eu busnes eu hunain mewn newyddion hyperleol. Mae hyn yn ychwanegol at y cymorth cyfredol i fusnesau gan Busnes Cymru. Mae'r cyllid wedi dod o bortffolio'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a byddwn ni'n ystyried yr opsiynau o ran gweinyddu'r grantiau yn fuan.

Yn gywir

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport